# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 10-09 (p1) : 2 Ebrill 2009**

### Diben

1. Diben y papur hwn yw darparu gwybodaeth gefndir am anghenion dysgu ychwanegol ôl-19 i Bwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Cyflwyniad

2. Cafodd adolygiad eang 3 cham o Anghenion Addysgol Ychwanegol ei gynnal gan yr hen Bwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Roedd trydydd cam yr adolygiad hwnnw (a gwblhawyd ym mis Mawrth 2007) yn canolbwyntio ar bontio. Cafodd y Pwyllgor Menter a Dysgu y manylion diweddaraf am gynnydd yn erbyn yr argymhellion ym mis Tachwedd 2008.

### Diffiniadau

3. Caiff anawsterau a/neu anableddau dysgu sy'n arwain at angen eu diffinio mewn 11 categori eang a ddefnyddiwyd ers 2008/09 ar draws pob ystod oedran. Mae darparwyr dysgu cyn ac ôl-16 yng Nghymru wedi cael arweiniad i'w helpu i gategoreiddio dysgwyr yn briodol ac yn gyson ar draws yr ystod oedran. Caiff y categori sy'n ymwneud â dysgwyr ag 'anawsterau dysgu dwys a lluosog' ei ddiffinio fel a ganlyn: 'Mae gan ddysgwyr sydd ag anawsterau dysgu dwys a lluosog nam gwybyddol/anhawster dysgu dwys, sy'n golygu eu bod yn araf iawn o ran cyrraedd cerrig milltir datblygu. Yn ogystal, maent yn dangos un neu fwy o'r canlynol:

nam echddygol sylweddol;
nam sylweddol ar y synhwyrau;
anghenion gofal iechyd cymhleth/dibyniaeth ar dechnoleg.

4. Mae'r berthynas rhwng yr anableddau hyn yn gwneud yr angen yn fwy cymhleth. O ganlyniad mae hyn yn effeithio ar bob maes dysgu. Mae angen cwricwlwm ar ddysgwyr ag anawsterau dysgu dwys a lluosog i'w helpu i ddatblygu sgiliau synhwyraidd, echddygol, cymdeithasol a chyfathrebu. Mae rhai dysgwyr yn cyfathrebu drwy ystumiau, pwyntio â'r llygaid neu drwy symbolau, tra bod eraill yn cyfathrebu drwy ddefnyddio iaith syml iawn. Mae angen llawer o gymorth ar ddysgwyr, ar gyfer eu hanghenion dysgu a'u gofal personol fel ei gilydd.'

### Dyletswyddau

5. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo cyfle cyfartal o ran mynediad i addysg a hyfforddiant. Wrth gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol a eglurir yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000, sef sicrhau bod cyfleusterau rhesymol yn cael eu darparu ar gyfer addysg a hyfforddiant sy'n addas i anghenion pobl dros 19 oed, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn gyfrifol yn gyfreithiol am gynnal asesiadau o bobl ifanc ag anawsterau dysgu, o'u blwyddyn olaf o addysg orfodol nes eu bod yn 25 oed (adran 140). Mae'r asesiad yn ymwneud â'u hanghenion o ran addysg a hyfforddiant, a'r ddarpariaeth sy'n ofynnol i ddiwallu'r anghenion hynny. Caiff y rhwymedigaeth honno ei chyflawni trwy drefniant â Gyrfa Cymru.

6. Mae deddfwriaeth arall yn ogystal â Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn rhoi cyfrifoldebau ar amrywiaeth o asiantaethau statudol. Er enghraifft, mae Amodau Ariannu Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob sefydliad addysg bellach gydymffurfio â gofynion Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (fel y'i diwygiwyd) a Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001. Er mwyn sicrhau a darparu cyfleusterau priodol ar gyfer pobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu, mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda'r asiantaethau eraill hyn er mwyn sicrhau'r ymateb gorau posibl i anghenion dysgwyr.

### Pontio

7. Yn 2002 datblygodd Llywodraeth Cynulliad Cymru God Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, sy'n egluro'r trefniadau pontio ar gyfer dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig ar draws yr ystod o asiantaethau perthnasol. Yn rhan o'r adolygiad blynyddol ym mlwyddyn 9, ac unrhyw adolygiadau blynyddol dilynol nes bod y person ifanc yn gadael yr ysgol, rhaid llunio Cynllun Pontio a'i adolygu wedyn. Dylai'r Cynllun Pontio dynnu gwybodaeth yn yr ysgol a thu hwnt ynghyd er mwyn cynllunio'n gydlynus ar gyfer y cyfnod pontio lle bydd y person ifanc yn dechrau byw bywyd oedolyn. Ni ddylai Cynlluniau Pontio ganolbwyntio'n unig ar drefniadau ar gyfer yr adeg pan fydd y person ifanc yn gadael yr ysgol. Dylent gynllunio hefyd ar gyfer darpariaeth barhaus yn yr ysgol, dan y datganiad Anghenion Addysgol Arbennig a oruchwylir gan yr Awdurdod Addysg Lleol. Dylai cynlluniau pontio fynd i'r afael â holl anghenion y plentyn.

8. Y Pennaeth sy'n gyfrifol am oruchwylio a chydlynu'r broses o wireddu'r cynllun pontio, a Gyrfa Cymru fydd yn arwain y broses o sicrhau bod yr elfennau hynny o'r Cynllun Pontio sy'n ymwneud â throsglwyddo'r person ifanc i gyfleoedd dysgu pellach neu gyflogaeth yn cael eu gwireddu. Dylai'r trefniadau hynny sicrhau bod holl elfennau darpariaeth arfaethedig ynghyd â'r asiantaethau sy'n gyfrifol am wireddu neu ariannu pob un ohonynt yn cael eu nodi a'u deall cyn gynted ag sy'n bosibl.

9. Mae rôl Gyrfa Cymru yn cynnwys:

trefnu cyfweliadau i roi arweiniad ar yrfaoedd, a pharatoi Cynlluniau Dysgu a Sgiliau ar gyfer pobl ifanc â datganiadau Anghenion

Addysgol Arbennig yn ystod eu blwyddyn olaf yn yr ysgol, â'r bwriad o glustnodi cymorth dysgu pellach ar eu cyfer;

cynnig eiriolaeth i'r dysgwr;

cyfeirio dysgwyr at ddarparwyr hyfforddiant ac asiantaethau eraill; a darparu gwasanaeth lleoli i'r rheini sy'n gadael ysgol, coleg neu hyfforddiant.

10. Mae'r tabl yn Atodiad A yn cyfeirio at nifer y disgyblion ag Angen Addysgol Arbennig oherwydd anawsterau dysgu dwys a lluosog ym mlynyddoedd 7 i 14, yn ôl data Cyfrifiadau Ysgolion. Gwelwyd cynnydd o 7% rhwng 2005 a 2008 yn nifer y dysgwyr y nodwyd eu bod yn perthyn i'r categori hwn.

11. Nododd adolygiadau cynharach y gellid gwella gwasanaethau i ddysgwyr a'u teuluoedd drwy ddatblygu rôl gweithiwr pontio allweddol. Mae'r dull gweithredu hwnnw'n cael ei dreialu mewn 5 ardal o 2008/09 ymlaen.

12. Ym mis Tachwedd 2008 cyflwynodd y Gweinidog dros Blant, Addysg a Sgiliau yr adroddiad diweddaru cyntaf am y cynnydd a wnaed mewn perthynas ag argymhellion Adolygiad yr hen Bwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau o Anghenion Addysgol Ychwanegol Rhan 3 - Pontio. Ceir copi o'r adroddiad diweddaru yn Atodiad B.

### Y ddarpariaeth bresennol a ffrydiau cymorth

13. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi cyllid ar gyfer darparu addysg a hyfforddiant i ddysgwyr ag anghenion ac anableddau dysgu ar draws Cymru, ac mae'n rhoi cymorth i ddysgwyr ar draws y sbectrwm anawsterau a/neu anableddau dysgu. Ym maes Addysg Bellach mae cyllid ar gael ar gyfer darpariaeth gyffredinol, darpariaeth ar wahân, darpariaeth i ddiwallu anghenion unigol penodol o ran cymorth a darpariaeth o ran cymorth ychwanegol, a ddyrennir fesul achos er mwyn diwallu anghenion mwy arbenigol mewn achosion lle mae sefydliad addysg bellach lleol yn nodi ei fod yn gallu darparu ar eu cyfer. Os nad yw hynny'n bosibl, gellir sicrhau bod cymorth arbenigol yn cael ei ddarparu trwy gyfrwng llety preswyl, gan gyflawni swyddogaethau Gweinidogion Cymru dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000.

14. Mae ffrydiau ariannu Addysg Bellach fel a ganlyn:

darpariaeth breswyl arbenigol;

cymorth eithriadol ar gyfer darpariaeth mewn sefydliadau addysg bellach lleol;

darpariaeth brif-ffrwd mewn sefydliadau addysg bellach lleol, â chymorth pobl neu gymorth technegol priodol ar gyfer dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu;

rhaglenni dysgu sy'n seiliedig ar waith, â chymorth pobl neu gymorth technegol priodol ar gyfer dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu.

15. Ceir rhagor o fanylion am y rhaglenni hyn isod. Caiff y cymorth penodol ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu dwys a lluosog ei egluro ym mhob achos. Ariennir pob darpariaeth dysgu ôl-16 yng Nghymru, ar wahân i Addysg Uwch, dan system gynllunio ac ariannu genedlaethol safonol. Mae'r system yn ystyried dysgwyr sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu trwy gydnabod goblygiadau ychwanegol o ran adnoddau yn yr arian cyffredinol a ddyrennir ar gyfer cyfleoedd dysgu ôl-19 mewn ysgolion, colegau neu ddarpariaeth dysgu sy'n seiliedig ar waith. Er na cheir unrhyw is-ddyraniad penodol ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu dwys a lluosog, mae dadansoddiad o ddata 2007/08 (y data archwiliedig diweddaraf sydd ar gael) yn dangos bod y sefydliadau addysg bellach yn y tabl yn Atodiad C wedi darparu gweithgarwch i ddysgwyr yn y Maes Pwnc a elwir yn 'Sylfeini ar gyfer Dysgu a Bywyd - Sgiliau Byw'n Annibynnol'. Dyma'r categori lle byddai dysgwyr ag anawsterau dysgu dwys a lluosog yn cael mynediad fel rheol i gyfleoedd dysgu mewn addysg bellach leol. Yn ogystal mae darpariaeth megis Sgiliau Byw'n Annibynnol a Sgiliau Cyfathrebu, sy'n cynnwys dysgu darllen gwefusau, iaith arwyddion ac iaith Braille, yn denu lwfans ychwanegol sy'n cyfateb i 1.9 a 3 o gost yr uned, ac mae felly'n cael cyllid ychwanegol trwy'r system gynllunio ac ariannu genedlaethol.

Lleoliadau preswyl arbenigol

16. Mae'r lleoliadau hyn wedi'u hanelu at ddysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu, na ellir diwallu eu hanghenion yn lleol. Pobl ag anableddau corfforol ac anableddau dysgu cymhleth yw'r bobl hynny gan amlaf. Ceir manylion ynghylch nifer y dysgwyr y rhoddwyd cymorth iddynt yn 2008/09 a'r ystod o golegau arbenigol yn Atodiad D. Mae'r nifer gymharol fach o ddysgwyr y rhoddwyd cymorth iddynt ym mhob coleg yn adlewyrchu amrywiaeth y grŵp hwn o ddysgwyr sydd ag anhwylderau cymhleth neu luosog, a'r ardal ddaearyddol wasgaredig y maent yn byw ynddi. Yn 2008/09 cafodd 207 o ddysgwyr gymorth ar gyfer darpariaeth arbenigol o'r fath, ac mae'r cymorth hwnnw'n para am uchafswm o 3 blynedd. Caiff unrhyw grantiau eu talu'n uniongyrchol i'r coleg arbenigol. Mae sicrhau lleoliad yn aml yn golygu cynnal trafodaethau ar y cyd/trafodaethau tair rhan ynghylch ariannu, ag Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol. Mae Gyrfa Cymru'n chwarae rôl allweddol o safbwynt paratoi ceisiadau, asesu'r opsiynau sydd ar gael a chasglu tystiolaeth ategol y gellir seilio argymhellion ar gyfer lleoliadau arni.

Cyllid eithriadol

17. Gellir rhoi cyllid eithriadol i sefydliad addysg bellach lleol i'w gynorthwyo i wneud ei ddarpariaeth yn hygyrch i bobl ifanc y mae'r math o anghenion dysgu ychwanegol sydd ganddynt yn golygu y byddent wedi cael eu hariannu i gael darpariaeth breswyl arbenigol. Ceir manylion ynghylch y cymorth a ddarparwyd i 94 o ddysgwyr yn 2008/09 yn Atodiad E.

Cyllid atodol

18. Gall sefydliadau addysg bellach gyflwyno cais yn flynyddol am gyllid atodol i alluogi dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu i fod yn rhan o amgylchedd dysgu prif-ffrwd yn yr un modd â dysgwyr eraill, lle cânt gyfleoedd tebyg i ddysgwyr eraill. Gall cyllid atodol dalu am gymorth pobl a chymorth technegol. Mae cymorth pobl yn cynnwys cymorth gan gyfathrebwyr, dehonglwyr iaith arwyddion, pobl sy'n cymryd nodiadau ac ati. Gall cymorth technegol gynnwys cyfarpar megis offer ysgrifennu Braille, a meddalwedd a/neu liniaduron arbenigol. Darperir cymorth tebyg hefyd trwy gyfrwng darparwyr dysgu sy'n seiliedig ar waith.

### Cynnydd mewn darpariaeth

19. Caiff y cyllid a ddyrennir i ddarparu cymorth ar gyfer anghenion a nodwyd, trwy gyllid darpariaeth breswyl arbenigol a chyllid eithriadol, ei asesu fesul achos. Caiff llawer o'r pecynnau hyn gymorth ariannol gan fwy nag un asiantaeth, megis Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol neu Fyrddau Iechyd Lleol. Mae'r broses o ddyrannu cyllid yn ymateb i'r galw. Yn 2005/06 cafwyd cynnydd sylweddol yn y galw gan ddysgwyr am gymorth i gael cyllid preswyl ac eithriadol. Mae'r cynnydd hwn mewn galw wedi lleihau rywfaint yn ddiweddar, ac roedd y galw gan ddysgwyr yn 2008/09 yn debyg i'r galw yn 2007/08. Yn 2008/09 fodd bynnag, gwelwyd cynnydd yn nifer y dysgwyr y nodwyd bod angen cymorth arnynt trwy gyllid atodol - 4159 o ddysgwyr, a oedd yn cyfateb i gynnydd o 19% o'i gymharu â 2007/08. O ran gwariant cyllidebol, er enghraifft, roedd y gyllideb wreiddiol yn 2005/06 ar gyfer cyllid eithriadol, cyllid preswyl a chyllid atodol ychydig dan £8.2 miliwn. Yn 2008/09, mae dros £14.5 miliwn wedi'i ddarparu ar gyfer y tri maes hwn.

### Newidiadau deddfwriaethol

20. Cafodd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Addysg a Hyfforddiant) 2008 ei gymeradwyo gan y Cyfrin Gyngor ar 9 Ebrill 2008. Erbyn hyn mae'r Cynulliad yn gallu gwneud newidiadau i'r broses asesu statudol yng Nghymru, trwy gyfrwng Mesur Cynulliad. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymgynghori'n eang ynghylch opsiynau ar gyfer diwygio'r fframwaith asesu statudol yng Nghymru. Mae Awdurdodau Addysg Lleol wedi mynegi eu diddordeb mewn arwain pedwar prosiect peilot, mewn partneriaeth â Llywodraeth y Cynulliad a rhanddeiliaid allweddol eraill, a byddwn yn gweithredu ar sail hynny eleni.

**Jane Hutt AC, Mawrth 2009**
**Y Gweinidog dros Blant, Addysg,**
**Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**